Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
—
Welsh Parliament
**Equality, Local Government and Communities Committee**

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

16 Hydref 2020

Annwyl Nick,

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

Diolch ichi a'ch tîm am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 21 Medi. Fel y dywedais, mae dau gwestiwn na chawsom amser i'w gofyn, ac rwy'n ysgrifennu atoch yn awr ynglŷn â'r rhain:

- A allech ddarparu rhagor o wybodaeth am eich gwaith allgymorth ac ymgysylltu, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, i godi ymwybyddiaeth o'r swydd ac i ennyn hyder ynddi? A sut y gallai'r pandemig effeithio ar y gwaith hwn?
- A allech ddarparu rhagor o fanylion am y mesurau rydych wedi'u cyflwyno i helpu staff gyda'u lles meddyliol a chorfforol, yn enwedig yng nghyd-destun y cynnydd yng nghyfradd y staff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch?

Yn ogystal â hyn, byddem yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am rai materion eraill. Yng nghyswllt cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, yn y gorffennol, roeddem yn ymwybodol bod patrwm o gwynion yn erbyn Aelodau gan swyddogion. A yw'r patrwm hwn yn y cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn parhau?

Yng nghyswllt adroddiadau Budd y Cyhoedd, a fyddech cystal â darparu rhagor o wybodaeth am y pedwar adroddiad a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565

hwn, gan gynnwys yr ymatebion i unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau hyn.

I gloi, mae rhai ohonom yn ymwybodol o achosion unigol pan wnaethoch ddyfarnu o blaid yr achwynydd, ond 6-12 mis yn ddiweddarach, roedd yr achwynydd yn dal yn wynebu’r un problemau a arweiniodd at y gŵyn wreiddiol. A ydych chi’n ymgymryd ag unrhyw waith dilynol ynglŷn â sefyllfa achwynwyr a chanlyniadau achosion wedi iddynt ddod i ben?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.